Wise Cymru | Wise Wales

Partneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Mae addysg uwch yng Nghymru wedi ymrywmo i, ac mae'n credu mewn, partneriaeth rhwng prifysgolion a myfyrwyr, sydd o fudd i'n prifysgolion, ein myfyrwyr ac i Gymru. Sefydlwyd Wise Cymru gan grŵp o asiantaethau o fewn i'r sector i sicrhau safle Cymru fel arloeswr mewn ymgysylltiad â myfyrwyr. Mae'r grŵp nawr yn bwriadu ymgorffori partneriaeth.

Nod y datganiad hwn yw esbonio partneriaeth, a gellir ei ddefnyddio gan brifysgolion ac undebau myfyrwyr fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau, gan sicrhau fod partneriaeth yn rhywbeth cadarn a'i fod yn arwain at welliannau gwirioneddol. Mae'r datganiad yn cydnabod nad yw'r un trefniannau'n addas ar gyfer pawb, a bydd partneriaeth yn brofiad unigryw i bob prifysgol, undeb myfyrwyr a myfyriwr.

Pam Partneriaeth?

Un o'r rhesymau allweddol dros ddatblygu ymagweddiad o bartneriaeth yw'r gred y dylai myfyrwyr chwarae rôl weithredol yn y broses o ddysgu, yn hytrach na dim ond derbyn gwybodaeth yn oddefol; mae partneriaeth yn allweddol i ddatblygu'r cyfranogiad hwnnw. Mae llawer mwy i bartneriaeth na dim ond 'gwrando' ar lais myfyrwyr a galluogi myfyrwyr i gael mewnbwn i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Mae partneriaeth yn fframio amgylchedd lle caiff blaenoriaethau, cynnwys a chyfeiriad y profiad dysgu oll eu gosod gan fyfyrwyr a staff gyda'i gilydd. Mae'r myfyriwr yn cyfranogi o'r cam cyntaf ar y daith hon.

Y nod yn y pen draw yw sicrhau fod partneriaeth yn dod yn rhan naturiol o brofiadau staff a myfyrwr.

Mae partneriaeth hefyd yn darparu cyfle i fynegi darlun ehangach o'r profiad dysgu i fyfyrwyr oll, ynghyd â chyflwyno cyfleoedd i greu newid cadarnhaol, buddiol a pharhaol yn y profiad o addysg uwch. Mae yno gysylltiad clòs rhwng hunaniaeth rhai myfyrwyr a meysydd eraill o'u profiad tra'n astudio mewn addysg uwch; er enghraifft, trwy eu cyfranogiad mewn chwaraeon a chymdeithasau neu eu profiad fel gwirfoddolwyr. Mae'n bwysig fod ymagweddiad o bartneriaeth yn rhoddi ystyriaeth i'r meysydd amrywiol hyn.

Mae addysg uwch yng Nghymru yn croesawu gweithio mewn partneriaeth – mae yno eisoes enghreifftiau nodedig o arferion ardderchog. Dylai'r gweithgareddau hyn gyfrannu at, a ffurfio partneriaethau hir-dymor a chynaliadwy rhwng myfyrwyr, staff a phrifysgolion. Y nod yn y pen draw yw sicrhau fod partneriaeth yn dod yn rhan naturiol o brofiadau staff a myfyrwyr.

Egwyddor yw partneriaeth, nid gweithgaredd. Rhaid i ni fod yn eglur nad yw casgliad o weithgareddau o reidrwydd yn arwydd fod partneriaeth ar waith; dylem fod yn ofalus nad ydym yn defnyddio iaith na syniadaeth partneriaeth wrth ddisgrifio prosesau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, neu gynlluniau a phrosiectau unigol. Er enghraifft, nid yw system gynrychiolwyr cyrsiau ynddi ei hun yn arwydd o bartneriaeth. Mae partneriaeth yn amcan o arferion ymgysylltu â myfyrwyr.

Yng Nghymru, credwn:

Nad yw'n bosibl diffinio partneriaeth mewn un ffordd ar gyfer y sector gyfan oherwydd natur unigryw pob prifysgol, undeb myfyrwyr a myfyriwr. Bydd natur a theimlad ymagweddiad o bartneriaeth yn gwahaniaethu yn ôl y rheiny sy'n cymryd rhan. Caiff ymgorffori gwirioneddol ei gyflawni pan fo partneriaeth yn dod yn rhan naturiol o brofiadau pob myfyriwr.

Ar gyfer yr amcan mwy o gefnogi a hwyluso ymgysylltiad myfyrwyr oll, rhaid i bartneriaeth fodoli rhwng endydau annibynnol, megis y brifysgol a chorff y myfyrwyr ar y cyd (undeb y myfyrwyr).

Mae partneriaeth yn fwy ystyrlon os yw hefyd yn digwydd ar lefel profiad pob myfyriwr ac aelod staff. Fel arfer, mae hyn yn digwydd fel rhan o'r broses ddysgu ac addysgu – ar lefel cwrs neu fodiwl. Rhaid i bartneriaeth, serch hynny, hefyd ymestyn tu hwnt i ddysgu ac addysgu ac i mewn i weithgareddau eraill y brifysgol, er enghraifft, ehangu mynediad, gwirfoddoli, ymgysylltiad â'r gymuned, a chyflogadwyedd..

Mae diwylliant o bartneriaeth yn cynnwys myfyrwyr, academyddion a staff proffesiynol yn ymgysylltu â thrafodaethau ynglŷn â'r ffordd ymlaen gyda'r gwahanol leisiau'n cael eu clywed, a hefyd fod pobl yn gwrando arnynt. Ni allwn ddiystyru parodrwydd staff a myfyrwyr i gael eu herio.

Mae i gorff y myfyrwyr amrywioldeb cyfoethog y dylid ei groesawu. Gall gwahanol feysydd arbenigol myfyrwyr fod yn werthfawr i bartneriaeth. 'Rydym yn croesawu'r her sy'n perthyn i ymgysylltu ag ehangder ein corff myfyrwyr er mwyn llwyddo i greu partneriaeth wirioneddol ystyrlon.

Dylai prifysgolion ac undebau myfyrwyr weithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd er mwyn i fyfyrwyr ymgysylltu â phrosesau gwella ansawdd.

Byddwn ni fel myfyrwyr, staff a phrifysgolion yn mynd ati i:

1. Ymgysylltu mewn trafodaethau o amgylch partneriaeth. Dylai prifysgolion, staff a myfyrwyr ymrwymo i wrando ar yr hyn sydd gan y naill a'r llall i'w ddweud mewn fforwm agored, fel y gallant rannu syniadau a thyfu arferion o amgylch materion sy'n bwysig iddynt hwy. Mae'r broses o drafod partneriaeth ynddo'i hun yn gam iach ac angenrheidiol ar y ffordd tuag at fabwysiadu ac ymgorffori ymagweddiad o bartneriaeth wirioneddol.

2. Cydnabod y gall ymgorffori ethos o bartneriaeth gymryd amser mewn rhai achosion.

3. Mapio allan ar y cyd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd a pha ffurf ddylai fod yno i bartneriaeth yn eu barn hwy, gan sicrhau cyfranogiad a barn corff amrywiaethol y myfyrwyr. Dylai prifysgolion ac undebau myfyrwyr ymrwymo adnoddau, lle bo hynny'n bosibl, i sicrhau fod hyn yn digwydd.

4. Gellir disgwyl i rai unigolion mewn rhai disgyblaethau gael y dull yma o weithio yn dipyn o her, ac o'r herywdd dylid trefnu fod cefnogaeth ar gael iddynt.

5. Cytuno blaenoriaethau ar y cyd rhwng prifysgolion ac undebau myfyrwyr ar gyfer partneriaethau. Bydd ymagweddiad ddatblygiadol yn helpu i sicrhau fod newid yn parhau.

6. Parhau i nodi a chytuno ar brosesau a fydd yn caniatáu i gynrychiolwyr myfyrwyr ymgysylltu mewn llunio penderfyniadau ledled y Brifysgol, a sut y caiff effeithlonrwydd y prosesau hyn ei adolygu.

7. Adolygu'r bartneriaeth yn barhaus. Un o gryfderau'r ymagweddiad system-gyfan yw pan y caiff cynrychiolwyr myfyrwyr newydd eu hethol, bydd ganddynt eu syniadau eu hunain ynglŷn â beth sydd angen tyfu a newid. Yn ystod y broses hon, mae dilyniant yn bwysig er mwyn cynnal egwyddorion craidd y bartneriaeth.

8. Parhau i gynhyrchu siarter blynyddol sy'n amlinellu disgwyliadau parthed swyddogaethau a chyfrifoldebau prifysgolion a'u myfyrwyr.

Mae partneriaeth yn ethos, wedi ei ymgorffori mewn gweithredu.

Gyda'n gilydd, `rydym yn gryfach.

Wise Cymru | Wise Wales